# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 169(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Gwerthfawrogi ein Hathrawon - Buddsoddi yn eu Rhagoriaeth

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Diwygio Trefniadau Llywodraethu a Chyllid Awdurdodau Tân ac Achub

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Gwella Canlyniadau i Blant: Lleihau'r Angen i Blant fynd i Mewn i Ofal, a Gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog

(30 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Lles Anifeiliaid

(30 munud)

## 7 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynlluniau Cyflenwi ar gyfer y Gaeaf

(30 munud)

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)

## 8 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

**NDM6858** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2018.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 9 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018

**NDM6859** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2018.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 10 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2017-18

(60 munud)

**NDM6855** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2017-18.

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2017-18.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y Comisiynydd Plant wedi sgorio cynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau elw mewn gofal, iaith arwyddion Prydain, eiriolaeth iechyd, gofal plant ac addysg yn y cartref dewisol fel coch, sy'n golygu na chafwyd unrhyw dystiolaeth o newidiadau polisi neu arfer ers y gwnaethpwyd yr argymhelliad a ni chafwyd unrhyw welliant o ran profiadau plant.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2018